

# Y Bryn ONSHORE WIND FARM



3D model representation



## NOISE AND VISUAL CONSIDERATIONS YSTYRIAETHAU GWELEDOL A SŴN

### Landscape and visual impact assessment

We appreciate that for many local residents, what the scheme looks like is a key consideration. To assess the impact of the proposed wind farm on the local area, a Landscape and Visual Impact Assessment (LVIA) will be carried out as part of the Environmental Impact Assessment (EIA).

An assessment of the visual impact from various viewpoints around the site will be undertaken. The site will be visible from a number of vantage points at varying distances and we will develop indicative imagery to show what the site may look like from these positions in order to help us design the proposals.

A cumulative assessment of how the scheme would fit into the existing landscape as well as in the context of existing wind farms will form part of this work.

Some early work on this has already been undertaken including the production of a 'Zone of Theoretical Visibility' (ZTV), which can be seen on this board. The ZTV indicates where the turbines could be visible, however it must be noted that this doesn't take into account existing buildings, trees or anything else 'above' ground which would likely affect views.

An interactive 3D model of the proposed site has also been developed to help illustrate what the scheme would look like from different locations.

### Asesiad tirlun ac effaith weledol (ATEW)

Rydym yn gwerthfawrogi bod golwg y cynllun yn allweddol i lawer o drigolion lleol. Er mwyn asesu effaith y fferm solar arfaethedig ar yr ardal leol, cynhaliwyd Asesiad Tirwedd ac Effaith Weledol (ATEW) fel rhan o'r Asesiad Effaith Amgylcheddol (AEA).

Caiff asesiad o'r effaith weledol o wahanol lefydd ei gynnal o amgylch y safle. Bydd y safle yn weladwy o nifer o fannau ffafriol o bellteroedd amrywiol a byddwn yn datblygu delweddau dangosol i ddangos golwg posib y safle o'r lleoliadau hyn er mwyn helpu ni i ddatblygu'r cynlluniau arfaethedig.

Bydd asesiad cronnos o sut fyddai'r cynllun yn gweddu i'r tirwedd sy'n bodoli eisoes, yn ogystal ag yng nghydestun ffermydd gwynt presennol yn ffurfio rhan o'r gwaith hwn.

Mae peth o'r gwaith cynnar hwn wedi cael ei wneud eisoes, yn cynnwys cynhyrchu Parth Gwelededd Damcaniaethol, y gellir ei weld ar y bwrdd hwn. Mae'r Parth Gwelededd Damcaniaethol yn dangos lle fyddai'r tyrbinau yn weladwy. Fodd bynnag rhaid nodi nad yw hyn yn cymryd adeiladau sy'n bodoli eisoes, na choed i ystyriaeth, na chwaith unrhyw beth arall 'uwchben' y ddaear fyddai'n debygol o effeithio ar olygfeydd.

Datblygwyd model rhyngweithiol 3D o'r safle arfaethedig hefyd er mwyn helpu i ddangos sut fyddai'r cynllun yn ymddangos o wahanol leoliadau.

### Noise

Noise from an operating wind farm can be generated from the rotation of the blades and, potentially, from internal mechanical movements. Whether the wind farm noise is audible, or distinguishable, to a nearby resident depends upon many factors, including: the distance, the wind speed, the wind direction, and the nature of local background noise sources (e.g. noise from nearby trees blowing in the wind, noise from a nearby stream, or noise from local traffic flows). Operational wind turbine is well understood and closely regulated.

Noise related to the construction phase of a wind farm may also be apparent, depending upon the nature of the particular construction activity and plant. Typically there would be various stages to the construction phase, e.g. construction of access tracks, hard standing area construction, turbine foundation excavation and concrete pouring, and turbine delivery and erection. Each of these operations may involve different machinery and so cause different levels of noise, but is generally, relatively speaking, short-term in nature, and likely to be limited to daytime working hours.

We are currently assessing the existing noise levels from a number of points around the site and surrounding areas. This 'base line' data will then allow us to consider any potential impacts that arise from expected noise generated by the development and operation of the project. Where appropriate, measures will be put in place to address any issues that are identified.

### Sŵn

Gall sŵn o fferm wynt weithredol gael ei gynhyrchu wrth i'r llafnau gylchdroi ac, o bosib, o symudiadau mecanyddol mewnol. Bydd sawl ffactor yn gyfrifol am p'un a all trigolyn gerllaw glywed sŵn y fferm wynt neu beidio, gan gynnwys: y pellter, cyflymder y gwynt, cyfeiriad y gwynt a natur ffynonellau sŵn cefndir lleol (e.e. sŵn o goed gerllaw yn chwythu yn y gwynt, sŵn o nant cyfagos, neu o lif traffig lleol). Deallir sŵn tyrbinau gwynt gweithredol yn dda ac mae'n cael ei reoleiddio'n agos.

Gall sŵn sy'n gysylltiedig â chyfnod adeiladu fferm wynt hefyd fod yn amlwg, yn dibynnu ar natur y weithgaredd adeiladu a'r offer. Yn nodweddiadol byddai camau amrywiol yn ystod y cyfnod adeiladu, e.e. adeiladu ffyrdd mynediad, adeiladu ardal galed, cloddio sylfeini'r tyrbinau ac arllwys concra, a chyflenwi a chodi tyrbinau. Gallai pob un o'r camau hyn olygu defnyddio gwahanol beiriannau ac felly achosi gwahanol lefelau o sŵn, ond yn gyffredinol mae hwn yn waith cymharol byr-dymor o ran natur, ac yn debygol o gael ei gyfyngu i oriau gwaith yn ystod y dydd.

Rydym ar hyn o bryd yn asesu'r lefelau sŵn presennol o nifer o bwyntiau o amgylch y safle a'r ardaloedd cyfagos. Bydd y data 'gwaelodlin' hwn yn caniatáu i ni ystyried unrhyw effeithiau posib allai godi o'r sŵn a gynhyrchir gan y datblygiad a drwy weithredu'r project hwn. Lle'n briodol, caiff mesurau eu rhoi mewn lle er mwyn cyfeirio at unrhyw faterion a gaiff eu hadnabod.



Gwylwch ein hymgynghoriad rhithwir a dewch o hyd i fwy o wybodaeth: [www.ybryn-windfarm.cymru](http://www.ybryn-windfarm.cymru)